CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**24.11.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; TAJ; RJ; JOJ; RY; EY;IW;LLMH;DP<br>**Ymddiheuriadau:** EO; AR;GW<br>**Yn mynychu:** SWR Cyng Llio Angharad trwy ZOOM |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datagnodd DW ddiddordeb mewn unrhyw drafodaeth bellach am gyflog y Clerc. |
| **3** | **Cofnodion 27.10.22**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 27 Hydref 22 fel rhai cywir (JAJ/RJ)<br>b) Materion yn Codi<br>Cyflog Clerc – cadarnhawyd y swm o ôr-dalu cyflog Clerc. Talwyd cyflog 'gross' yn lle 'net' am gyfnod o 15 mis sef cyfanswm o £801.00. Cynigwyd i'r Clerc ad-dalu dros gyfnod o 5 mis (hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon) sef £160.20 y mis. Cytunwyd yn unfrydol, gyda'r Is Gadeirydd yn ategu gan fod y Cadeirydd wedi datgan diddordeb ac ddim yn rhan o'r drafodaeth. Clerc i sefydlu taliad debyd uniongyrchol i gyfrif y Cyngor Cymdeithas.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 24.11.22. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**DP** - cyfeiriodd at ddamwain car ger Henllys lle difrodwyd wal. Ni fu modd darganfod pwy oedd y troseddwr gan i'r ardal gael ei chlirio yn sydyn. O ganlyniad, mae'r gost o adfer y wal yn gyfrifoldeb i deulu Henllys.<br><br>- Holodd am gael ail-osod llun Hari Hughes Mynydd Mwyn yn y Caffi. Nododd y Clerc bod Carolyn Owen ar fin ail-osod y lluniau yn dilyn paentio'r Caffi.<br><br>**RY** – cyfeiriodd at 'manhole' wedi suddo ger Arosfa yn y Sgwar. Clerc i adrodd i Priffyrdd CSYM<br><br>**IW** – cyfeiriodd at ddau gi yn cyfarth dydd a nos yn 73 Stryd Fawr – Clerc i gysylltu a Barry Owen CSYM<br><br>**JOJ** – adroddod bod car (X88SJX) yn parcio ger y Gofeb a gadael cwn i redeg yn yr ardal chwarae Cae Gofeb. Clerc i hysbyu Barry Owen CSYM<br><br>- Nododd bod cais gan drigolion Carmel i gael hyfforddiant ar y peiriant de-fib. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â Richard Jones Amlwch i holi am sesiynau yn Llan a Carmel.<br><br>**JAJ** – cyfeiriodd eto at y pryder am y groesfan ar y Stryd Fawr. Cytunwyd i godi eto yn rhan o'r cynllun gweithredu gan nodi byddai CC Llan yn fodlon cyfrannu at unrhyw gostau fyddai i drio gwella gwelwededd a gwneud y groesfan yn fwy diogel. Clerc i drafod gyda swyddogion Priffyrdd CSYM. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Hydref**<br>HMRC – cyflog Clerc £157.80<br>Liam Jones – gwaith cynnal a chadw yn y Stesion (a gytunwyd eisoes) £1740<br>360 Groundcare – cynnal a chadw'r Cae Peldroed £540 (ad-daliad gan CPD £450)<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc – mis Tachwedd (a Rhagfyr 31.12.22 gan na fydd cyfarfod) £491.89 + 1 Zoom £14.39 506.28<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £14903.76<br>Cyfrif wrth gefn £ 1437.47 |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>Dim i law |
| **7.** | **Materion Safleoedd**<br><br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** dim i law<br>• **Unedau Tan y Foel –** dim i law |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at cais i law i brynu bedd yn y Fynwent Gyhoeddus. Mae'r cais yn cyfeirio at blot gerllaw aelod o deulu'r ymgeisydd. Cytunwyd yn unfrydol i'r cais ac i'r Clerc weithredu'r gwaith papur perthnasol.<br><br>Cytunwyd i adolygu'r ffioedd a materion eraill perthnasol yng nghyfarfod mis Ionawr 2023.<br><br>Dogfennau Statudol – cyfeiriodd y Clerc at amrywiol Ddogfennau Statudol. Nododd eu bod ar gael ar Wefan y Cyngor ac na fydd yn eu printio a'u gosod mewn ffolder fel a fu. Arwyddodd yr aelodau yn bresennol eu bod yn derbyn a deall y drefn newydd hon.<br><br>Gofynwyd iddynt arwyddo Datganiad o Ddiddordeb hefyd er mwyn cadw'r Gofrestr yn gyfredol.<br><br>Arwyddodd y Cyngorhorwyr newydd y Datganiad Derbyn Swydd.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383